

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

Datganiad Terfyn Ffioedd	
Enw'r darparwr	Coleg Cambria
Hyd y datganiad terfyn ffioedd a dyddiad dod i rym	Bydd y datganiad terfyn ffioedd yn ddilys am un flwyddyn academiaidd. Y flwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2027 fydd y dyddiad dod i rym.
Adran 1 - Lefelau Ffioedd	
Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffioedd ym mhob lleoliad	
Lefel Ffioedd	Lleoliad y Cwrs
HNC Llawn Amser Bydd ein ffioedd HNC llawn amser ar gyfer 27/28 yn unol â lefel ffioedd Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y terfyn hwnnw. Ein ffioedd HNC yw £5000 y cwrs y flwyddyn academiaidd.	HNC Llawn Amser Bydd ein ffioedd ar gyfer 27/28 yn unol â lefel ffioedd Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y terfyn hwnnw. Cymwysterau a lleoliad cymwysterau: Y ffi HNC yw £5,000 y cwrs y flwyddyn academiaidd. Cyflwynir cyrsiau llawn amser ar safle Llaneurgain ar gyfer <i>Busnes a Rheolaeth Anifeiliaid</i>, ac ar safle lâl ar gyfer <i>Lletygarwch</i>.

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

HND Llawn Amser Bydd ein ffioedd HND llawn amser ar gyfer 27/28 yn unol â lefel ffioedd Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y terfyn hwnnw. Ein ffioedd HND llawn amser yw £5000 y cwrs fesul blwyddyn academaidd.	HND Llawn Amser Bydd ein ffioedd ar gyfer 27/28 yn unol â lefel ffioedd Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y terfyn hwnnw. Cymwysterau a lleoliad cymwysterau: Y ffi HND amser llawn yw £5,000 y cwrs y flwyddyn academaidd. Mae'r pynciau sydd ar gael yn cynnwys <i>E-chwaraeon</i> ar safle Glannau Dyfrdwy, <i>Lletygarwch</i> ar safle lâl, a <i>Rheolaeth Anifeiliaid</i> ar safle Llaneurgain.
---	--

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol	
Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu eglurder llwyr ynghylch cyfanswm cost astudio. Er mwyn sicrhau trosolwg cynhwysfawr a thryloyw, mae'r dadansoddiad canlynol yn amlinellu cyfanswm y ffioedd a'r taliadau a gafwyd gan fyfyrwyr mewn cysylltiad â'n cyrsiau addysg uwch llawn amser: 1. Ffioedd Cyfanswm Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC)	

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

- **Ffioedd Dysgu:** Y ffi dysgu ar gyfer HNC llawn amser ar gyfer blwyddyn academiaidd 2027/28 yw **£5,000 y cwrs**. Mae'r lefel ffi hon yn cyd-fynd â therfynau ffioedd statudol Llywodraeth Cymru ac yn parhau i fod yn amodol ar unrhyw newidiadau a wneir i'r terfyn hwnnw.
- **Cyfanswm Costau Cyfanredol HNC:** Cyfanswm ffioedd HNC llawn amser a thaliadau craidd a delir gan fyfyrwr mewn cysylltiad â'u cwrs ar gyfer y flwyddyn academiaidd yw **£5,000**.

2. Ffioedd Cyfanredol y Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)

- **Ffioedd Dysgu:** Y ffi dysgu ar gyfer HND amser llawn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2027/28 yw **£5,000 y cwrs, y flwyddyn academiaidd**. Fel yr HNC, mae hyn yn unol â lefel ffioedd rhagnodedig Llywodraeth Cymru ac unrhyw newidiadau dilynol i'r terfyn hwnnw.
- **Cyfanswm Costau Cyfanredol HND:** Cyfanswm cyfanredol ffioedd HND llawn amser a delir gan fyfyrwr dros gyfnod llawn eu rhaglen astudio dwy flynedd yw **£10,000** (£5,000 y flwyddyn academiaidd).

3. Cwmpas y Symiau Cyfanredol

- **Trosolwg Cynhwysfawr:** Mae'r ffigurau o £5,000 (HNC) a £10,000 (HND) yn cynrychioli cyfanswm cynhwysfawr yr holl ffioedd a thaliadau craidd sy'n ofynnol i gwblhau'r cymwysterau hyn.
- **Costau Cwrs Ychwanegol:** Yn unol ag ymrwymadau sefydliadol, mae unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs (megis deunyddiau hanfodol neu deithiau maes penodol) wedi'u manylu'n glir a'u darparu mewn fformatau allanol hawdd eu defnyddio, gan gynnwys tudalennau gwe cwrs penodol a llythyrau cynnig ffurfiol, gan sicrhau nad yw myfyrwyr yn wynebu unrhyw gostau ariannol annisgwyl.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu ar ein gwefan.

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder, eglurder a thegwch llwyr ynghylch ffioedd dysgu ac unrhyw ddiwygiadau posibl yn y dyfodol. Er bod y Datganiad Terfyn Ffioedd cyfredol ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan, mae'r coleg yn defnyddio mecanweithiau strwythuredig, rhagweithiol ac amserlenni llym i sicrhau bod pob myfyrwr darpar a chyfredol yn cael gwybod yn llawn am unrhyw newidiadau.

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

Mae'r strategaeth gyfathrebu yn dibynnu ar y mecanweithiau a'r amserlenni canlynol:

- **Darpar Fyfyrrwyr a Chyn-Gofrestru:** Caiff unrhyw addasiadau i strwythurau ffioedd eu diweddarau ar wefan y coleg a'r prospectws digidol yn syth ar ôl eu cymeradwyo. I ymgeiswyr sydd â chynigion, anfonir hysbysiadau uniongyrchol drwy e-bost neu borth yr ymgeiswyr. Mae hyn yn digwydd cyn gynted â phosibl, gan sicrhau bod gan fyfyrwyr o leiaf dri mis o rybudd cyn dechrau eu cwrs i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus.
- **Myfyrwyr Presennol a Myfyrwyr sy'n Parhau:** Yn yr achos prin y bydd gwelliant i ffioedd yn effeithio ar fyfyrwyr sy'n parhau (yn amodol ar newidiadau deddfwriaethol neu addasiadau chwyddiant y cytunwyd arnynt ymlaen llaw a amlinellir yn y cytundeb myfyrwyr cychwynnol), mae'r coleg yn defnyddio dull aml-sianel. Mae hyn yn cynnwys:
 - Cyfathrebu Digidol Uniongyrchol: Negeseuon e-bost personol a anfonir yn uniongyrchol at gyfrifon myfyrwyr.
 - Y Porth Myfyrwyr: Hysbysiadau wedi'u targedu ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) / Dangosfwrdd Myfyrwyr mewnol.
 - Sianeli Llais y Myfyrwyr: Briffiau a rennir gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr a fforwm Llais Myfyrwyr i sicrhau cefnogaeth ac eglurder gan gymheiriaid.
- **Amserlenni ar gyfer Cyfathrebu:** Ar gyfer unrhyw ddiwygiadau sy'n effeithio ar flwyddyn academiaidd sydd ar y gweill neu sydd i ddod, mae Coleg Cambria yn gorfodi cyfnod hysbysu lleiaf o un tymor llawn (tua 12 wythnos) cyn i'r newid ddod i rym. Mae hyn yn sicrhau bod gan fyfyrwyr ddigon o amser i drafod trefniadau ariannu gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru (neu gyrff ariannu perthnasol) a thimau Cymorth Myfyrwyr a Chyngor Ariannol y coleg.
- **Cymorth a Chyngor:** Mae pob cyfathrebiad ynghylch newidiadau i ffioedd yn cyfeirio myfyrwyr yn benodol at wasanaethau cymorth ariannol pwrpasol y coleg. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw fyfyrwr sydd angen arweiniad ar fwrsariaethau, ysgoloriaethau, neu gynlluniau talu yn cael cymorth un-i-un wedi'i deilwra i liniaru effaith unrhyw newidiadau.

Drwy'r sianeli cadarn hyn, mae Coleg Cambria yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr yn wynebu addasiadau ariannol annisgwyl a bod yr holl gyfathrebiadau'n cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu defnyddwyr a disgwyliadau rheoleiddio Medr.

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd


Awdurdodi'r datganiad terfyn ffioedd (angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi'r ceisiadau am ddatganiad terfyn ffioedd, mae'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol):

- i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;
- ii. yn cadarnhau bod ymgynghori priodol wedi bod ag undeb y myfyrwyr neu gyrff cynrychioliadol eraill, y rhai sy'n astudio yn y darparwr ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, ac felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant
- iii. yn cadarnhau bod costau cwrs ychwanegol (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygrych, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau cynnig.
- iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;
- v. yn cadarnhau bod yr holl gyrsiau cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) ac waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'u hystyried yn y datganiad hwn;
- vi. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfyn ffioedd, fel y'u cymeradwywyd gan Medr;
- vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;
- viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r datganiad terfyn ffioedd yn hygrych i'w fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

- ix. yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Cyflwyniad datganiad terfyn ffioedd i Medr ¹	
Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu (neu gyfwerth):	Cyfarfod Bwrdd y Gorfforaeth a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2026
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gyfwerth):	 Yr Athro T J Wheeler (Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr)
Dyddiad:	15 Mehefin 2025
Cyflwyniad datganiad terfyn ffioedd terfynol unwaith y bydd Medr wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw broblemau pellach (lle bo'n berthnasol)	
Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu (neu gyfwerth):	
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gyfwerth):	
Dyddiad:	

¹ Mae'n **rhaidd** i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr yn unig.

Templed Datganiad Terfyn Ffioedd